# Cystadleuaeth Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel Llywodraeth Cymru

Mae Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel yn cael ei ddathlu'n fyd-eang ym mis Chwefror bob blwyddyn i annog plant a phobl ifanc i ddefnyddio technoleg ddigidol yn ddiogel a chadarnhaol.

I ddathlu Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2020, mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chanolfan y DU ar gyfer Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, yn croesawu ceisiadau ar gyfer **Cystadleuaeth Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel Llywodraeth Cymru**. Nod y gystadleuaeth yw annog plant a phobl ifanc i ddatgan eu creadigrwydd a rhannu eu dealltwriaeth o les digidol a materion diogelwch ar-lein.

## Y briff

Thema'r gystadleuaeth yw **"Gwella'r We: Sut i ofalu amdanoch chi eich hunain ac eraill"**.

Wrth i dechnoleg barhau i fod yn rhan fawr o'n bywydau, mae'n cael effaith ar ein lles digidol. Mae lles digidol yn ymwneud â bod yn ymwybodol o sut gall ein gweithgareddau ar-lein wneud i ni deimlo a phwysigrwydd gofalu amdanom ni ein hunain ac eraill ar-lein. Mae hefyd yn cynnwys deall beth i'w wneud os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

Mae dysgwyr yn cael eu gwahodd i greu ffilm sy'n **hysbyseb mewn arddull neges i'r cyhoedd**. Mae'r ffilm ar gyfer eu ffrindiau a'u teuluoedd. Dylai'r ffilm archwilio sut i ofalu amdanoch chi eich hunain ac eraill ar-lein. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu hannog i feddwl sut y gall bod ar-lein wneud i ni deimlo ac i feddwl am syniadau ac awgrymiadau creadigol ynghylch sut i aros yn iach ar-lein, a sut i ofalu amdanom ni ein hunain ac eraill ar-lein. Gall hyn hefyd gynnwys yr effaith gall bod ar-lein ei chael ar ein hemosiynau, ein lles meddyliol a hyd yn oed ein hiechyd corfforol, a gwybod beth i'w wneud os bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

## Categorïau

Mae dau gategori yng Nghystadleuaeth Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2020 sef oedran Cynradd ac Uwchradd. Mae'n rhaid i'r ysgolion a'r sefydliadau ieuenctid oruchwylio a chyflwyno ceisiadau ar ran pawb sy'n cymryd rhan. Bydd panel o feirniaid yn sgorio'r ceisiadau a bydd pawb sy'n cyrraedd y rownd derfynol ym mhob categori yn cael eu gwahodd i ddangosiad VIP ar 11 Chwefror 2020 (Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2020).

### Categori Cynradd

Yng nghategori cynradd y gystadleuaeth, rydym yn gofyn i blant a phobl ifanc greu ffilm fer **hyd at 2 funud**.

### Categori Uwchradd

Yng nghategori uwchradd y gystadleuaeth, rydym yn gofyn i bobl ifanc greu ffilm fer **hyd at 2 funud**.

### Deunyddiau i'ch helpu

Rydym wedi creu pecyn ar gyfer pob categori ac maent yn cynnwys y dogfennau canlynol.

- Rheolau cystadlu
- Cwestiynau cyffredin
- Ffurflen gais swyddogol
- Ffurflen caniatâd cyfryngau
- Gwybodaeth bwysig am hawlfraint

### Dyddiadau allweddol i'ch dyddiadur

Dyddiad lansio'r gystadleuaeth: **16 Medi 2019**

Dyddiad cau'r gystadleuaeth: **6 Rhagfyr 2019**

Rhoi gwybod i'r rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol erbyn: **20 Ionawr 2020**

Digwyddiad VIP Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel: **11 Chwefror 2020**

Am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at onlinesafety@swgfl.org.uk